

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Tachwedd 24ain 2014 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **11/14 PRESENNOL:** Cyngorwyr. Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Christopher Jones, Nesta Jones, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng.Sir - K Howell, PCSO Olivia Jones & Gethin Lewis, Cyfieithydd.
2. **11/14 HEDDLU:** Dwedodd PCSO Olivia Jones bod ‘Read Speed’ wedi bod allan yn yr ardal ac i ddod allan eto yr wythnos sy’n dod. Nodwyd bod yr heddlu i’w gweld ar Trydar. Dwedwyd bod rhai ieuenctid wedi bod yn gwneud difrod yn y pentref – pwysleisiwyd ei bod yn bwysig rhoi gwybod i’r heddlu fel y gallant ddelio a’r mater cyn gynted a phosib. Nodwyd bod yr heddlu wedi siarad a rhai o’r ieuenctid.
3. **11/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. B Jones, M Phillips, M Rees
4. **11/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Hydref 27ain 2014 a’u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. J Ayres
Eilydd – Cyng. D Smith
5. **11/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **11/14 MATERION YN CODI :**
 - 11.i.06/14. Arwydd Cyflymder i Felindre – nododd Andrew Morgan y byddai yn mynd ar ôl y contractwr i wneud y llinellau melyn yn Felindre. Hefyd nododd y gost am yr arwyddion sef tua £5,896+TAW(£1,179.20)=£7,075.20 bydd y pris yn cynnwys yr arwyddion,eu gosod ynghyd a chomisiynu’r arwyddion a fydd yn cynnwys pyst newydd. Cadarnhaodd y byddai’r Cyngor Sir yn ymgymryd a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol.
 - 12.i.01/14. b) ‘Audio Trail’ – doedd Cyng C Roberts ddim yn hapus a’r map – edrych mewn i gael map arall. Mae wedi trefnu i gwrdd ag Emyr Price trannoeth i’r cyfarfod [25/11/14] i drafod y gwaith cyn ei argraffu.
 - 12.ii.04/14 Dŵr ar yr hewl tu allan i Meysydd, Felindre – y gwaith wedi ei wneud.
 - 12.v.05/14 Arwydd Cyflymder 30mya ym Mhentrecagal – Clerc i siarad ag Andrew Morgan ynghlŷn a’r mater.
7. **11/14 GOHEBIAETH:**
 - i. CSG – Archifau Sir Gaerfyrddin – nodi, oherwydd llwydni ar y dogfennau, bod y Cyngor wedi gorfod trosglwyddo’r dogfennau hanes teuluol i’r llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin a Llanelli.
 - ii. CSG – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gâr – hysbysiad ynghylch cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd – forward.planning@ Carmarthenshire.gov.uk
 - iii. e-bost –ULIC – ‘Community Foundation in Wales’ - £175,000 o Grantiau ar gael i’r gymuned available – *cylchlythyrwyd*
 - iv. e-bost – ULIC – Comisiynydd Plant Cymru – swydd ar y panel – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - v. e-bost – Fforwm Blynyddol Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - vi. e-bost – Arolwg Canfod Moch Daear Marw – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol - Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
 - viii. e-bost – Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned 4/12/14 am 6.15 yn Neuadd y Sir – *Cyng J Crossley i fynychu*
 - ix. - Age Cymru Sir Gâr – gwahoddiad i’r Cyfarfod Blynyddol yn Y Mwnt, CAVS, Caerfyrddin ar 3/12/14am 10yb i 12.30yp – *cylchlythyrwyd*
 - x. e-bost – CSG – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – *cylchlythyrwyd*
 - xi. e-bost – Gyfarfod Agored Tynged yr Iaith Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin o 10.30am ar 17/01/15 - *nodwyd*
 - xii. CSG – Seminar Cynllunio Chwefror 2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd – Cyng J Wigley yn dymuno mynychu*
 - xiii. CSG – Apêl Teganau Nadolig – i law erbyn 9/12/14 – *nodwyd*
 - xiv. ULIC – Adroddiad o Adolygiad Trefn Lywodraethol Sir Gâr – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xv. CSG – Caniatâd i gael golau Nadolig ym Mhontweli

8. 11/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

Caniatâd

W/29552 – Mr Raymond Jones, Tir cyfagos i Cefn-Isaf, Saron SA44 5DX – dau blot arfaethedig ynghyd â mynedfa i’r plotiau a
Chefn Isaf

W/29896 – Mr J Ludgate, Penrallt, Velindre SA44 5XU – trawsnewid tai-allan afraid i ffurfio tri llety gwyliau dau ystafell wely

W/30866 – Jeffrey Thomas, Plot ger Maeswthan, Saron SA44 5DX – Plot ar gyfer annedd-dy

Cais Ymgynghori llawn

W/31110 – Brian Jones & Frank Dacri, Hafod Hedd Site, Saron, Llandysul SA44 5DR – cais cynllunio amlinellol am chwe
plot arfaethedig – *dim barn*

W/31188 – Cartrefi Einon Homes Cyf – Marc Lewis – tir cyfagos i Rhosmaen, Rhos SA44 5AF – materion ar gadw i ganiatâd
cynllunio W/27940 - plot preswyl arfaethedig gyda gweithdy fframwaith coed at ddefnydd masnachol ac
amaethyddol ar gyfer preswylfa menter gwledig – *cefnogi*

9. 11/14 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 24/11/2014	£61.20
ii. HIRIO NEUADD YR EGLWYS, PENBOYR – cyfarfod 2/09/14	£8.75
[caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]	
iii. LLENG PRYDEINIG [torch y Cyngor i CNE)	£30.00
iv. LLENG PRYDEINIG [torchau y Cyngor a'r cymdeithasau]	£224.00
v. DYLAN DAVIES taliad am bris a gytunwyd i drasio llwybrau	£1,200.00
vi. YSWIRIANT PARC SARON.....	£945.00
Arian yn y Banc ar 10/11/2014.....	£15,696.34

b. Credyd

Arian am y torchau hyd yn hyn.....£171.00

c. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Yswiriant Parc Chwarae Saron £1070.00

10. 11/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Trefnu gwasanaeth Sul y Cofio – nodwyd bod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiant gyda chefnogaeth dda o'r gymuned, cytunwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch i Mr G Showell i ddiolch am ei gyfraniad cerddorol yn chwarae'r trwmpeid.

11. 11/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

i. Cadwyn y Cadeirydd – Cyng J Wigley am gyflwyno mwy o syniadau erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd na ddylid newid cynllun y gadwyn bresennol ond ei gwneud rhywfaint yn llai ac ysgafnach.

12. 11/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng C Roberts – a) un neu ddau beth i newid ar pamffled yr Audio Trail ac yna bydd yn barod.
b) Yswiriant y Parc – dwedodd y byddai yn barod i edrych mewn am gwell brisiau.
- ii. Cyng J Wigley – a) angen bin sbwriel ar bwys arosfan bws ger Y Beeches – Clerc i gysylltu a'r Cyngor
b) twll ar y llwybr ger Square Hall – Clerc i gysylltu a'r Cyngor.
c) da gweld bod y gwaith ar y draen tu allan i Meysydd, Felindre wedi ei wneud.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Ionawr 26ain 2015, am 7.30y.h yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

